# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 20 Hydref 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

# (292)v5

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Bil Drafft Cymru

(30 munud)

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Yr Uwchgynhadledd ar Ddur

(30 munud)

## 5 Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015

(15 munud)

**NDM5846 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Medi 2015.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Dadl ar ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg

(60 munud)

**NDM5845 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2014-15, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 28 Medi 2015, sy'n manylu ar y gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2014-15

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i gydweithio er mwyn cyhoeddi amserlen ar gyfer cyflawni'r ymrwymiadau yn ei strategaeth iaith, 'Iaith fyw: iaith byw', erbyn diwedd y Cynulliad hwn.

'Iaith fyw: iaith byw'

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei strategaeth iaith 'Iaith fyw: iaith byw' i wneud 'safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gwmnïau'r sector preifat sy'n rhan o gwmpas Mesur y Gymraeg, gan gynnwys cwmnïau telathrebu, gweithredwyr bysiau a threnau, a chwmnïau cyfleustodau'.

Iaith fyw: Iaith Byw

## 7 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

(60 munud)

**NDM5847 Ken Skates (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Gosodwyd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 1 Mai 2015.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 9 Hydref 2015.

**Dogfennau Ategol**

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

## 8 Dadl ar Benderfyniad Ariannol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

(5 munud)

**NDM5848 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 9 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru)

(60 munud)

**NDM5849 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru).

Gosodwyd Bil yr Amgylchedd (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 11 Mai 2015.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Fil yr Amgylchedd (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 9 Hydref 2015.

**Dogfennau Ategol**

Bil yr Amgylchedd (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 10 Dadl ar Benderfyniad Ariannol Bil yr Amgylchedd (Cymru)

(5 munud)

**NDM5850 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil yr Amgylchedd (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 11 Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

(15 munud)

**NDM5855 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

**Dogfennau Ategol**

Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

## 12 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 21 Hydref 2015